**Mae rhagor o wybodaeth amdanom ar gael yn:**
**llyw.cymru/apelio-yn-erbyn-hysbysiad-gorfodi-cynllunio**

PCAC
PEDW
Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru
Planning & Environment Decisions Wales

# APÊL GORFODI

Os oes arnoch angen y ddogfen hon mewn print bras, ar dâp sain, mewn Braille neu mewn iaith arall, cysylltwch â ni ar 0300 123 1590. Mae'r ffurflen hon ar gyfer apelio yn erbyn Hysbysiad Gorfodi yn unig.

**Ymwelwch â'n gwefan i gael arweiniad ar lenwi'r ffurflen hon.**

**Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r ffurflen gywir ar gyfer y math o apêl rydych chi'n ei chyflwyno.**

**RHYBUDD:** Mae'n rhaid i'ch apêl gyrraedd Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) **cyn** y dyddiad y daw Hysbysiad Gorfodi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i rym

**OS NAD YDYCH YN LLENWI'R FFURFLEN HON YN ELECTRONIG, PRINTIWCH YN GLIR MEWN PRIFLYTHRENNAU GAN DDEFNYDDIO INC DU**

---

**A. APELYDD –** Mae'n **rhaid** i'r apelydd naill ai bod yn feddiannydd perthnasol ar y tir, neu'n berson sydd â buddiant yn y tir.

| | |
|---|---|
| Enw / Enw'r Sefydliad (os yw'n berthnasol) | |

---

## B. ASIANT (os oes un) AR GYFER YR APÊL

| | |
|---|---|
| Enw / Enw'r Sefydliad (os yw'n berthnasol) | |

---

## C. AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL (ACLl)

| | |
|---|---|
| Enw'r ACLl | |
| Dyddiad cyflwyno'r Hysbysiad Gorfodi | |
| Dyddiad dod i rym yr Hysbysiad Gorfodi | |
| Rhif cyfeirnod ar yr Hysbysiad Gorfodi | |

---

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50027

## CH. CYFEIRIAD SAFLE'R APÊL

| | |
|---|---|
| Y tir yr effeithir arno (rhowch y cyfeiriad llawn) | |
| Cod post | |

A oes unrhyw faterion iechyd a diogelwch ar y safle neu'n agos iddo y byddai angen i'r Arolygydd eu hystyried wrth ymweld â'r safle?
*Os '**OES**', esboniwch isod. Peidiwch â chynnwys gwybodaeth bersonol nac ariannol.

OES* ☐ NAC OES ☐

Beth yw'ch buddiant chi/buddiant yr apelydd yn y tir?

Perchennog ☐ Tenant ☐ Morgeisai ☐

Os nad yw'r un o'r rhain yn berthnasol, a oeddech chi/a oedd yr apelydd yn meddiannu'r tir o dan drwydded ysgrifenedig neu lafar **AR** y dyddiad y cyflwynwyd yr Hysbysiad Gorfodi **AC** ar ddyddiad gwneud yr apêl?

IE ☐ NA* ☐

*Os '**NA**', beth yw'ch cysylltiad chi/cysylltiad yr apelydd â'r tir?

**SYLWER:** Bydd yr Arolygydd yn ymweld â'r safle'n ddigwmni, heb y naill barti na'r llall, oni bai na ellir gweld y rhan berthnasol o'r safle o ffordd neu dir cyhoeddus arall, neu os yw'n hanfodol i'r Arolygydd fynd i mewn i'r safle i wirio mesuriadau neu ffeithiau perthnasol.

A yw'n hanfodol i'r Arolygydd fynd i mewn i'r safle i wirio mesuriadau neu ffeithiau eraill perthnasol? *Os '**YDYW**' esboniwch isod. Peidiwch â chynnwys gwybodaeth bersonol nac ariannol.

YDYW* ☐ NAC YDYW ☐

## D. SEILIAU A FFEITHIAU

**Ticiwch ba rai o'r seiliau apêl canlynol sy'n berthnasol** i'ch achos a rhowch ffeithiau i gefnogi pob sail a ddewiswyd. Dyma'ch **unig** gyfle i gyflwyno'ch achos o blaid eich sail apêl. Felly, mae'n rhaid i chi roi eich datganiad achos **LLAWN** yn gysylltiedig â phob un o'r seiliau apêl rydych yn dadlau drostynt. Cyfeiriwch at y canllawiau ar ein gwefan am ragor o wybodaeth.
*Parhewch ar ddalen ar wahân, os oes angen.*

**a. Y dylai caniatâd cynllunio gael ei roi ar gyfer yr hyn a honnir yn yr hysbysiad** ☐

Dywed Adran 174 (2)(a) y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref "mewn perthynas ag unrhyw dor rheolaeth gynllunio a allai fod wedi'i greu gan y materion a nodir yn yr hysbysiad, dylai caniatâd cynllunio gael ei roi neu, yn ôl y digwydd, dylai'r amod neu'r cyfyngiad dan sylw gael ei ryddhau".

**SYLWER:** Mae ffi yn daladwy am apêl ar y sail hon – Gweler adran F.

| |
|---|
| |

**b. Nad yw'r achos o dor rheolaeth a honnir yn yr hysbysiad gorfodi wedi digwydd fel mater o ffaith** ☐

Dywed Adran 174(2)(b) "nad yw'r materion hynny wedi digwydd".

| |
|---|
| |

**D. SEILIAU A FFEITHIAU (Parhad)**

**c. Na fu achos o dor rheolaeth gynllunio (er enghraifft, oherwydd bod caniatâd eisoes wedi cael ei roi neu oherwydd ei fod yn "ddatblygiad a ganiateir")** ☐

Dywed Adran 174(2)(c) "nad yw'r materion hynny (os oeddent wedi digwydd) yn gyfystyr â thor rheolaeth gynllunio".

**ch. Nad yw'r achos o dor rheolaeth a honnir yn yr hysbysiad gorfodi wedi digwydd fel mater o ffaith** ☐

Dywed Adran 174(2)(d) "ar y dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad, ni ellid cymryd unrhyw gamau gorfodi mewn perthynas ag unrhyw achos o dor rheolaeth gynllunio a allai fod wedi'i greu gan y materion hynny".

**SYLWER:** Os bydd apêl ar sail (ch) yn codi anghydfod ynglŷn â mater o ffaith, mae'n debygol y bydd angen Ymchwiliad (gyda thystiolaeth ar lw) i brofi'r dystiolaeth.

**D. SEILIAU A FFEITHIAU (Parhad)**

**d. Ni chyflwynwyd yr hysbysiad yn briodol i bawb sydd â buddiant yn y tir** ☐

Dywed Adran 174(2)(e) "na chyflwynwyd copïau o'r hysbysiad gorfodi fel sy'n ofynnol gan adran 172"

**dd. Bod y camau sy'n ofynnol i gydymffurfio â gofynion yr hysbysiad yn ormodol, a byddai camau llai yn goresgyn y gwrthwynebiadau** ☐

*Nodwch sut y dylai'r gofynion gael eu hamrywio, yn eich barn chi*

Dywed Adran 174(2)(f) "bod y camau y mae'r hysbysiad yn mynnu eu bod yn cael eu cymryd, neu'r gweithgareddau y mae'r hysbysiad yn mynnu eu bod yn cael eu hatal, yn fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol i unioni unrhyw dor rheolaeth gynllunio a allai fod wedi'i greu gan y materion hynny neu, yn ôl y digwydd, i unioni unrhyw niwed i amwynder a achoswyd gan unrhyw dor rheolaeth o'r fath".

**e. Bod yr amser a roddwyd i gydymffurfio â'r hysbysiad yn rhy fyr** ☐

*Nodwch gyfnod cydymffurfio rhesymol, yn eich barn chi, a pham*

Dywed Adran 174(2)(g) "mae unrhyw gyfnod a bennir yn yr hysbysiad yn unol ag adran 173(9) yn fyr o'r hyn y dylid ei ganiatáu yn rhesymol".

**DD. GWEITHDREFN (gweler y canllawiau am ragor o wybodaeth)**

Gall apeliadau yr ymdrinnir â nhw o dan Ran 4 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017 gael eu hystyried ar sail sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad, ymchwiliad neu achos cyfunol. Yn unol â Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2017, bydd PCAC yn penderfynu ar y weithdrefn fwyaf priodol a bydd yn ei hadolygu drwy gydol y broses.

**Ticiwch un blwch yn unig**

| | |
|---|---|
| Credaf fod y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn briodol. | ☐ |
| Credaf fod y weithdrefn gwrandawiad yn briodol. | ☐ |
| Credaf fod y weithdrefn ymchwiliad yn briodol. | ☐ |

Os credwch fod angen gwrandawiad neu ymchwiliad, rhowch eich rhesymau llawn isod, gan gynnwys nifer debygol y diwrnodau y credwch y bydd y digwyddiad yn para a faint o dystion y bwriadwch eu galw. Sylwch mai PCAC fydd yn penderfynu p'un a gynhelir gwrandawiad, ymchwiliad neu gyfuniad.

**E. CAIS AM DDYFARNU COSTAU**

| | YDYW* | NAC YDYW |
|---|---|---|
| A yw'r apêl yn cynnwys cais am gostau? (gweler y canllawiau am ragor o wybodaeth). | ☐ | ☐ |

* Os '**Ydyw**' mae'n rhaid i chi gyflwyno datganiad isod sy'n esbonio'n glir pam yr ydych yn credu bod ymddygiad afresymol wedi digwydd a sut mae hyn wedi achosi traul ddiangen neu wastraff.
*Parhewch ar ddalen ar wahân os oes angen.*

## F. FFI AR GYFER Y CAIS CYNLLUNIO TYBIEDIG

| | YDYW* | NAC YDYW |
|---|---|---|
| A yw'r apelydd wedi gwneud cais am ganiatâd cynllunio a thalu'r ffi briodol ar gyfer yr un datblygiad ag yn yr hysbysiad gorfodi? | ☐ | ☐ |

*Os '**YDYW**' nodwch y canlynol:

a. Dyddiad y cais perthnasol

b. Dyddiad penderfyniad yr ACLl (os oes un)

| | OES* | NAC OES |
|---|---|---|
| A oes unrhyw resymau cynllunio pam na ddylid talu ffi ar gyfer yr apêl hon?<br>*Os '**OES**', esboniwch isod. Peidiwch â chynnwys gwybodaeth bersonol nac ariannol. | ☐ | ☐ |

Os '**NAC OES**', ac rydych wedi pledio sail (a) i'r cais cynllunio tybiedig gael ei ystyried yn rhan o'ch apêl, **mae'n rhaid i chi dalu'r ffi**, a ddangosir yn y nodyn esboniadol a ddaeth gyda'ch hysbysiad gorfodi.

---

## FF. APELIADAU/CEISIADAU ERAILL

| | YDW* | NAC YDW |
|---|---|---|
| A ydych chi wedi anfon apeliadau eraill ar gyfer y safle hwn neu safleoedd cyfagos atom, er enghraifft yn erbyn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio neu dystysgrif datblygiad cyfreithlon, nad ydynt wedi'u penderfynu? | ☐ | ☐ |

*Os '**YDW**', rhowch fanylion a'n rhifau cyfeirnod ni.

---

**DATGANIAD YNGLŶN Â'R CAIS**

Cadarnhaf fod pob adran wedi cael ei llenwi hyd eithaf fy ngwybodaeth.

Cadarnhaf fy mod wedi amgáu copi o'r Hysbysiad Gorfodi a'r cynllun gyda'r ffurflen hon.

Cadarnhaf fy mod wedi anfon copi o'r ffurflen hon ac unrhyw ddogfennau perthnasol at yr ACLl.

Deallaf y gallech ddefnyddio'r wybodaeth a roddwyd gennyf at ddibenion swyddogol mewn cysylltiad â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac y gallai manylion gan gynnwys fy enw, y disgrifiad o'r safle a'm seiliau apêl ymddangos ar y Porth Gwaith Achos Apeliadau. Trwy gyflwyno'r ffurflen hon, rwyf yn cytuno i'r wybodaeth a roddaf gael ei defnyddio yn y modd hwn.

| | |
|---|---|
| Enw (mewn priflythrennau) | |
| Ar ran (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad | |

---

**ANFONWCH**

**1 COPI atom ni yn:**

E-bost: PEDW.Casework@gov.wales
PEDW.GwaithAchos@llyw.cymru

**NEU**

Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Llinell gymorth: 0300 123 1590

**1 COPI at yr ACLl:**

Anfonwch gopi o'r ffurflen apêl at y cyfeiriad o ble yr anfonwyd yr Hysbysiad Gorfodi (neu at y cyfeiriad a ddangosir ar unrhyw lythyrau a dderbyniwyd oddi wrth yr ACLl).

**Cadwch gopi ar gyfer eich cofnodion.**

---

Pan fyddwn yn derbyn eich ffurflen apêl, byddwn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi beth fydd yn digwydd nesaf.

Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon/y cyhoeddiad hwn gael eu hanfon atom yn y cyfeiriad uchod neu drwy anfon neges e-bost at:
PEDW.Casework@gov.wales / PEDW.GwaithAchos@llyw.cymru

**Manylion Personol** (*ni fydd y rhain ar gael yn gyhoeddus*)

**1. MANYLION PERSONOL YR APELYDD**

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad | |
| Cod post | |
| Rhif ffôn yn ystod y dydd | |
| E-bost | |
| Dewis iaith | Cymraeg ☐ Saesneg ☐ |
| Cysylltwch â fi drwy | E-bost ☐ Post ☐ |

**2. MANYLION PERSONOL YR ASIANT** (os oes un)

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad | |
| Cod post | |
| Rhif ffôn yn ystod y dydd | |
| E-bost | |
| Dewis iaith | Cymraeg ☐ Saesneg ☐ |
| Cysylltwch â fi drwy | E-bost ☐ Post ☐ |

**Mae'r data personol a gyflenwir gennych ar y ffurflen hon yn cael ei gasglu a'i brosesu wedi hynny yn unol â thelerau ein cofrestriad o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Mae rhagor o wybodaeth am ein Polisi Diogelu Data ar gael yn llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-llywodraeth-cymru**